RHYBUDD PREIFATRWYDD - Gwasanaethau Etholiadol

Mae'r geiriad yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) sy'n weithredol o 25ain Mai 2018.

Maes gwasanaeth CBST:	Y Prif Weithredwr
Maes Gwaith:	Democratiaeth, Etholiadol
Manylion Cyswllt	voting@torfaen.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaethau Etholiadol

Rheolwr data:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth:
Susan Bullock
01633 647467
E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

1) **Ydyn ni wedi cael eich data personol yn uniongyrchol oddi wrthych chi? Ydym**

2) **Pa wybodaeth ydy'r Cyngor yn ei chasglu ynglŷn â chi?**
Mae'r Cyngor yn casglu ac yn prosesu amrywiaeth o wybodaeth ynglŷn â chi. Mae hyn yn cynnwys:

Enw
Cyfeiriad
Dyddiad Geni
Cenedligrwydd
Rhif Yswiriant Cenedlaethol
Cyfeiriad e-bost
Rhif Ffôn

3) **Gall y Cyngor gasglu'r wybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd:**

Ffurflenni Cais

Byddwn yn storio eich data:

Arall

Yn y system meddalwedd Cofrestru Etholiadol, bydd copïau papur yn cael eu storio'n ddiogel

4) **Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?**

I gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor

Mae Adran 9 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn gofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadw cofrestr o etholwyr tra bod Adran 10 gofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ymgymryd â chanfasiad blynyddol o eiddo.

5) **Categorïau Arbennig o ddata personol:**

Na

Gallwn brosesu'r data yn y categori yma oherwydd:

Choose an item.

6) **Pwy sy'n gallu gweld eich data?**
Gall eich gwybodaeth gael ei rhannu'n fewnol gyda:

Refeniw a Budd-daliadau, Archwilio Mewnol

Mae'r Cyngor yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon oherwydd y gofynion deddfwriaethol canlynol:

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen hawl i dderbyn copi o'r gofrestr etholiadol (Rheoliad 107 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan gynghorwyr hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hardal etholiadol (Rheoliad 103 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001)

Mae gan ASau yr hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hetholaeth (Rheoliad 103 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan aelodau Cynlluniad Cenedlaethol Cymru hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hetholaeth neu ranbarth (Rheoliad 103 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan ymgeiswyr mewn etholiadau hawl i gael copi o'r gofrestr ar gyfer y sedd y maen nhw'n ymladd amdani (Rheoliad 108 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan swyddfeydd etholaethol gwleidyddol hawl i dderbyn copi o'r gofrestr ar gyfer eu hetholaeth (Rheoliad 105 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan gyngor cymuned neu dref hawl i dderbyn copi o'r gofrestr ar gyfer eu hardal (Rheoliad 107 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan blaid wleidyddol gofrestredig neu drydydd parti cydnabyddedig (a chyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda) hawl i dderbyn copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 109 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan yr Heddlu hawl i dderbyn copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 109 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru hawl i dderbyn copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 97 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan y Comisiwn Etholiadol hawl i dderbyn copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 100 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan y Comisiwn Ffiniau hawl i dderbyn copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 101 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan Swyddog Canlyniadau etholaeth Torfaen hawl i dderbyn copi o'r gofrestr ar gyfer eu hardal (Rheoliad 98 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan Asiantaethau Gwirio Credyd hawl i dderbyn copi o'r gofrestr lawn at ddibenion gwneud gwiriadau credyd ar daliad y ffi statudol. (Rheoliadau 113 a 114 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Gall adrannau'r Llywodraeth hefyd brynu'r gofrestr lawn (Rheoliadau 113 a 114 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Mae gan Wasanaeth y Llysoedd hawl i dderbyn y gofrestr er mwyn gwysio trigolion ar gyfer gwasanaeth Rheithgor (Deddf Rheithgorau)

Rhaid gwerthu'r gofrestr olygedig i unrhyw berson sy'n gofyn am gopi (Rheoliad 110 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Ceisiadau mynediad ar gyfer atal Trosedd – gall gwybodaeth bersonol gael ei rhoi os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon bod y rheolau ar gyfer atal a dod o hyd i drosedd, neu ddal neu erlyn troseddwyr wedi eu bodloni.

Ydy'r Data'n cael ei drosglwyddo i'r tu allan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd?

Nac ydy

7) <u>Sut mae'r Cyngor yn diogelu data?</u>

Mae gan y Cyngor bolisïau mewnol mewn grym er mwyn sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu yn cael ei golli, ei ddinistrio'n anfwriadol, ei

gamddefnyddio neu ei ddatgelu. Hefyd, nid yw staff yn edrych ar ddata ac eithrio pan fyddant wrth eu dyletswyddau.

Ble mae'r Cyngor yn cyflogi trydydd partïon i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd partïon yma hefyd ddyletswydd o gyfrinachedd ac mae'n ofynnol iddyn nhw weithredu mesurau priodol er mwyn sicrhau diogelwch y data.

8) <u>Am ba mor hir y mae'r Cyngor yn cadw eich data?</u>

Bydd y Cyngor yn dal eich data personol dim ond cyhyd ag sydd angen a bydd yn dilyn safonau sefydliadol ac Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn unol â'n hatodlenni cadw Llywodraeth Leol.

Cofrestrau Etholiadol – 15 mlynedd er mwyn gwirio hawl cofrestru pleidleiswyr o dramor.

Dynodwyr Pleidleisiau Absennol – 5 mlynedd ac yna cael eu 'hadnewyddu' neu eu dileu a'r hawl i bleidleisio trwy'r post neu drwy ddirprwy yn cael ei dileu.

Ffurflenni Cofrestru a thystiolaeth o oedran, cenedligrwydd (gan gynnwys Ffurflenni Ymholiad Aelwyd a Gwahoddiadau i Gofrestru) ar gyfer cyfnod y gofrestr honno (1 Flwyddyn)

Mae dogfennau etholiadau'n cael eu cadw'n ddiogel am 1 flwyddyn.

Mae ffurflenni cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn etholiad seneddol yn cael eu dinistrio ar yr 21ain diwrnod ar ôl i'r aelod gael ei (h)ethol.

Mae treuliau etholiadol ymgeisydd yn cael eu cadw'n ddiogel am ddwy flynedd (ac eithrio treuliau ymgeisydd Ewropeaidd a thref/cymuned sy'n cael eu cadw am 1 flwyddyn)

9) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/proffilio gyda'ch data?
Nac Ydym

<u>Eich Hawliau</u>

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- gweld a chael copi o'ch data ar gais

- mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- mewn rhai amgylchiadau gallwch fynnu bod y Cyngor yn dileu neu'n peidio â phrosesu'ch data, er enghraifft, ble nad yw'r data'n angenrheidiol at ddibenion prosesu
- cael gwybod yr amser y bydd data'n cael ei gadw
- yr hawl i hygludedd data
- yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg
- yr hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyliol (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)
- canlyniadau peidio darparu data i'r Cyngor
- bodolaeth systemau penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a chanlyniadau hyn i chi.

Os hoffech arfer unrhyw un neu rai o'r hawliau yma, cysylltwch â: Caroline Genever-Jones, Rheolwr Etholiadau a Busnes E-bost: Caroline.Genever-Jones@Torfaen.gov.uk

RHEOLAETH DOGFEN

Teitl:	**RHYBUDD PREIFATRWYDD - Gwasanaethau Etholiadol**		
Perchennog y Ddogfen:	**Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth** (SIRO)		
Awdur y Ddogfen:	**Caroline Genever-Jones**		
Cyfeirnod:	**PN018**	**Cyfnod Cadw**	**Tan yr adolygiad nesaf**
Dosbarthiad y Ddogfen:	Swyddogol	**Lleoliad**	Torfaen.Gov
Fersiwn / Statws	Byw	**Cymeradwywyd gan**	SIRO
Dyddiad Cyhoeddiad Presennol	Mehefin 2019	**Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:**	Mehefin 2022

HANES ADOLYGU

Dyddiad Cyhoeddi	Fersiwn / Statws	Rheswm dros Newid	Newidiwyd gan
Ebrill 2018	1.0 Byw	Crëwyd y ffurflen er mwyn sicrhau Cydymffurfiad â RhDDC	Sue Bullock
Mehefin 2019	2.0 Byw	Adolygiad – dim newidiadau	CGJ